

Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah
Connahs Quay Low Carbon Power Project
EN10166

Uniper UK Limited

Cofnod Cyngor Adran 51 / Section 51 Advice
Log

Fersiwn / Version: 29/10/2024

Mae dyletswydd statudol o dan [adran 51 \(a51\) o Ddeddf Cynllunio 2008](#) i'r Arolygiaeth Gynllunio gofnodi'r cyngor y mae'n ei roi mewn perthynas â chais neu gais posibl, a sicrhau bod hwn ar gael i'r cyhoedd.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cofnod o'r cyngor a ddarparwyd gan yr Arolygiaeth i'r Ymgeisydd (Uniper UK Limited) a'i ymgynghorwyr yn ystod y cam cyn ymgeisio. Bydd yn cael ei ddiweddarau gan yr Arolygiaeth ar ôl pob rhyngweithiad gyda'r Ymgeisydd pan ddarparwyd a51. Bydd yr Ymgeisydd bob amser yn cael cyfle i wneud sylwadau ar gofnod cyngor drafft yr Arolygiaeth cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Bydd yr ymgeisydd yn defnyddio'r Log Cyngor hwn fel sail ar gyfer dangos ystyriaeth i gyngor adran 51 yn y cais.

There is a statutory duty under [section 51 \(s51\) of the Planning Act 2008](#) for the Planning Inspectorate to record the advice that it gives in relation to an application or potential application, and to make this publicly available.

This document comprises a record of the advice that has been provided by the Inspectorate to the Applicant (Uniper UK Limited) and their consultants during the pre-application stage. It will be updated by the Inspectorate after every interaction with the Applicant during which s51 has been provided. The Applicant will always be given the opportunity to comment on the Inspectorate's draft record of advice before it is published.

The applicant will use this Advice Log as the basis for demonstrating regard to section 51 advice within the application.

Cei Connah / Connaahs Quay Cofnod Cyngor s51 - Mynegai s51 Advice Log - Index	
Dyddiad y cyfarfod Date of meeting	Trosolwg o'r cyfarfod Meeting overview
28 Hydref 2024 28 October 2024	Sylwadau PINS ar Ddogfen y Rhaglen PINS comments on the Programme Document
3 Rhagfyr 2024 3 December 2024	<u>Cyfarfod Diweddarau Prosiect:</u> • Diweddariad ar Ymgynghori Statudol • Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR) • Dogfen Ddrafft/AoCM a Chyflwyniad DCO • Darpariaethau Gwarchodedig <u>Project Update Meeting:</u> • Update on Statutory Consultation • Preliminary Environmental Information Report (PEIR) • Draft Document/AoCM and DCO Submission • Protected Provisions
29 Ionawr 2025 29 January 2025	<u>Carreg Filtir Digonolrwydd Ymgynghori</u> • Cyflwynodd yr ymgeisydd y ddogfen Carreg Filtir Digonolrwydd Ymgynghori i'w hadolygu ar 29 Ionawr 2025. • Mae'r Arolygiaeth yn fodlon bod y ddogfen yn gynhwysfawr ac nid oes ganddi unrhyw sylwadau. <u>Adequacy of Consultation Milestone</u> • The applicant submitted the Adequacy of Consultation Milestone Document for review on 29 January 2025.

	The Inspectorate is content that the document is comprehensive and has no comments.
12 Mawrth 2025 12 March 2025	<u>Cyfarfod Diweddariad ar y Prosiect:</u> - Rhoddwyd gwybod am ymgynghoriad anstatudol ychwanegol i ymateb i newid i'r elfen ddylunio - Diweddariad ar y rhaglen a gohirio'r dyddiad cyflwyno - Ymagwedd Ddylunio - Cyfieithiad Cymraeg - Gofynion Datganiad Angen - Adroddiad Carreg Filltir Digonolrwydd Ymgynghori <u>Project Update Meeting:</u> - Informed of additional non-statutory consultation in response to a change in the design element - Programme update and the delayed submission date - Design Approach - Welsh translation - Statement of Need requirements - Adequacy of Consultation Milestone Report

Cei Connah - Llyfrgell Gynggori s51
Connahs Quay - s51 Advice Library

Pwnc
Topic

Dyddiad cyfarfod: 28 Hydref 2024
Meeting date: 28 October 2024

Sylwadau PINS ar
Ddogfen y
Rhaglen

PINS comments
on the Programme
Document

CYMRAEG:

- Mae'n rhaid i'r Ymgeisydd sicrhau bod y Ddogfen Rhaglen yn cael ei chyflwyno a'i chynnal ar wefan yr Ymgeisydd;
- Mae'r Ddogfen Rhaglen yn nodi y disgwyliwyd i'r Ymgynghoriad Statudol ddigwydd yn ystod trydydd chwarter 2024. Dylid diweddarau'r Ddogfen Rhaglen i ddarparu'r dyddiadau a gadarnhawyd;
- Mae'r Garreg Filltir Digonolrwydd Ymgynghori wedi'i chynnwys yn yr amserlen, ym mhedwerydd Chwarter 2025, ond byddai'n ddefnyddiol pe gellid lleihau'r raddfa amser.
- Nodir yn yr amserlen y disgwylir i'r cais gael ei gyflwyno yn ystod chwarter cyntaf 2025; byddai'n ddefnyddiol pe gellid lleihau'r raddfa amser;
- Nid yw'r Ddogfen Rhaglen yn darparu unrhyw raddfeydd amser ar gyfer cyflwyno dogfennau drafft i'w hadolygu gan yr Arolygiaeth, nac yn cadarnhau pa ddogfennau a fydd yn cael eu cyflwyno. Dylid diweddarau'r Ddogfen Rhaglen i roi dyddiad cywir ar gyfer y cyflwyniad hwn, gan ganiatáu cyfnod o chwe wythnos ar gyfer adolygiad yr Arolygiaeth, a sicrhau digon o amser cyn dyddiad cyflwyno'r cais i ddangos ystyriaeth o sylwadau'r Arolygiaeth;
- Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Ddogfen Rhaglen ddarparu graddfeydd amser bras ar gyfer cyfarfodydd diweddarau ar y prosiect gyda'r Arolygiaeth. Byddai hefyd yn ddefnyddiol rhestru unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol gyda rhanddeiliaid allweddol i alluogi'r partïon hynny i drefnu adnoddau'n effeithiol.
- A yw'r Ymgeisydd yn bwriadu cyhoeddi fersiwn ddwyieithog o'r Ddogfen Rhaglen ar ei wefan?

ENGLISH:

- The Applicant must ensure that the Programme Document (PD) is hosted and maintained on the Applicant's website;
- The PD sets out that Statutory Consultation was due to take place in Q3 2024. The PD should be updated to provide the confirmed dates;

	• The Adequacy of Consultation Milestone is included in the timetable, at Quarter 4 2025, but it would be helpful if the timeframe could be narrowed. • The application submission is included in the timetable as Quarter 1 2025; it would be helpful if the timeframe could be narrowed; • The PD does not provide any timescales for the submission of draft documents for the Inspectorate's review, or confirmation of what documents will be submitted. The PD should be updated to provide an accurate date for this submission, allowing a six week period for the Inspectorate's review, ensuring sufficient time before the application submission date to demonstrate regard to the Inspectorate's comments; • It would be helpful if the PD could provide approximate timescales for project update meetings with the Inspectorate. It would also be helpful to list any future meetings with key stakeholders to enable those parties to deploy resources effectively. • Is the Applicant intending to publish a bilingually version of the PD on its website?
Pwnc Topic	Dyddiad cyfarfod: 3 Rhagfyr 2024 Meeting date: 3 December 2024
Diweddariadau ar y Prosiect Project Updates	CYMRAEG: Rhoddodd yr Ymgeisydd wybod i'r Arolygiaeth am newidiadau allweddol i ffin llinell goch y cynllun. Rhoddodd yr Ymgeisydd ddiweddariad arall ar yr ymgysylltiad technegol parhaus â Chomisiwn Dylunio Cymru. Holodd yr Arolygiaeth ynghylch p'un a oedd Comisiwn Dylunio Cymru wedi cynnal adolygiad. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd nad oedd adolygiad wedi'i gynnal a chynghorodd yr Arolygiaeth y byddai'n ddefnyddiol hwyluso un, a dangos esblygiad y dyluniad yn nogfennau'r cais. Pe byddai'r cais yn cael ei dderbyn i'w archwilio, fe allai Comisiwn Dylunio Cymru gofrestru fel Parti â Buddiant. Trwy gynnal adolygiad yn ystod y cam cyn-ymgeisio, fe allai'r Ymgeisydd ddatrys unrhyw anghytundebau posibl cyn yr Archwiliad. Holodd yr Arolygiaeth ynghylch p'un a fyddai Gosodiad ar Ben y Tir (AGI) y Fflint (y rhoddwyd caniatâd datblygu iddo yng Ngorchymyn Piblinell Carbon Deuocsid HyNet) yn destun unrhyw waith yn rhan o'r cais hwn. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd na fwriedir unrhyw waith ac y byddai'r safle'n cael ei ddefnyddio fel pwynt cysylltu yn unig.

	ENGLISH: The Applicant informed the Inspectorate of key changes to the red line boundary of the scheme. The Applicant further updated on the ongoing technical engagement with the Design Commission for Wales (DCFW). The Inspectorate queried whether a DCFW review has been undertaken. The Applicant confirmed that a review has not been carried out and the Inspectorate advised that it would be helpful to facilitate one, and to demonstrate the design evolution in the application documents. Should the application be accepted for examination, DCfW may register as an Interested Party. By undertaking a review during the pre-application stage, the Applicant could resolve any potential disagreements in advance of the Examination. The Inspectorate queried whether the Flint Above Ground Installation (AGI) (granted for development consent in the HyNet Carbon Dioxide Pipeline Order) would be subject to any works as part of this application. The Applicant confirmed that no works were intended and that the site would be used as a connection point only.
Adroddiad Ymgynghori Consultation Report	CYMRAEG: Rhoddodd yr Ymgeisydd wybod i'r Arolygiaeth fod ymgynghoriad anstatudol wedi cael ei gynnal rhwng 26 Chwefror 2024 a 25 Mawrth 2024. Dilynwyd hynny gan ei gyfnod ymgynghori statudol, o 8 Hydref 2024 tan 19 Tachwedd 2024. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol yn cael eu coladu o ganlyniad i'r lefel uchel o adborth. Holodd yr Arolygiaeth ynghylch p'un a oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymgysylltu, a chadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod wedi ymgysylltu. ENGLISH: The Applicant informed the Inspectorate that non-statutory consultation took place between 26 February 2024 and 25 March 2024. Its statutory consultation period followed, from 8 October 2024 to 19 November 2024. Responses to statutory consultation are being collated and as a result of the high level of feedback. The Inspectorate queried whether Natural Resources Wales had engaged, to which the Applicant confirmed it had.

Caffael Gorfodol a Meddiant Dros Dro Compulsory Acquisition and Temporary Possession	CYMRAEG: Cynghorodd yr Ymgeisydd y byddai'n ddefnyddiol pe gellid cadarnhau nifer y lleiniau sy'n destun Caffael Gorfodol a Meddiant Dros Dro yn y cyfarfod nesaf sy'n rhoi diweddariad ar y prosiect. ENGLISH: The Inspectorate advised that it would be helpful if the number of plots subject to Compulsory Acquisition and Temporary Possession could be confirmed at the next project update meeting.
Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR) Preliminary Environmental Information Report (PEIR)	CYMRAEG: Rhoddodd yr Ymgeisydd wybod i'r Arolygiaeth fod y PEIR wedi cael ei gyhoeddi ar 8 Hydref 2024. Cadarnhaodd na amlygwyd unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol ar ôl gweithredu mesurau lliniaru ymgorfforedig ac ychwanegol ar gyfer sawl pwnc, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) ansawdd aer, materion economaidd-gymdeithasol, y newid yn yr hinsawdd ac ecoleg forol. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i sicrhau bod yr hierarchaeth lliniaru'n cael ei chymhwyso a'i dangos yn glir yn nogfennau'r cais. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn ymwybodol o'r hierarchaeth lliniaru ac y byddai'n dangos ei bod wedi'i chymhwyso yn nogfennau'r cais. Holodd yr Arolygiaeth ynglŷn â'r potensial ar gyfer effeithiau arwyddocaol yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y gwnaed rhai newidiadau i'r dyluniad o ganlyniad i gymhwyso'r hierarchaeth lliniaru. Atgoffodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd na ddylai mesurau lliniaru gael eu hystyried yn ystod y cam sgrinio ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ac y dylai'r Ymgeisydd esbonio'n glir lle gwnaed newidiadau i'r dyluniad i liniaru effaith a chymhwyso hynny i'r HRA yn unol â hynny. ENGLISH: The Applicant informed the Inspectorate that the PEIR was published on 8 October 2024. It confirmed that no significant adverse effects have been identified following implementation of both embedded and additional mitigation for several topics, including (but not limited to) air quality, socio-economics, climate change and marine ecology.

	The Inspectorate advised the Applicant to ensure the mitigation hierarchy is applied and clearly demonstrated in the application documents. The Applicant confirmed that it is conscious of the mitigation hierarchy and would demonstrate its application in the application documents. The Inspectorate queried the potential for significant effects within the Habitats Regulations Assessment (HRA). The Applicant confirmed that some changes in design have been made as a result of applying the mitigation hierarchy. The Inspectorate reminded the Applicant of the need to consider that mitigation should not be taken into account at the screening stage for the Habitat Regulations Assessment (HRA) and that the Applicant should clearly explain where design changes have been undertaken to mitigate an effect and apply that to the HRA accordingly.
Dogfennau Drafft a Chyflwyno'r DCO Draft Documents and DCO Submission	CYMRAEG: Rhoddodd yr Ymgeisydd wybod i'r Arolygiaeth y bwriedir i'r Garreg Filtir Digonolrwydd Ymgynghori (AoCM) gael ei chyflwyno ym mis Ionawr 2025, ynghyd â dogfennau drafft. Dywedodd yr Ymgeisydd y bwriedir i'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) gael ei gyflwyno ym mis Mawrth 2025. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd ynglŷn â'r cyfnod o chwe wythnos i adolygu dogfennau drafft, ac y dylai'r graddfeydd amser hyn gynnwys amser i wneud unrhyw ddiwygiadau yn dilyn yr adolygiad. Er mwyn trefnu adnoddau, cynghorwyd yr Ymgeisydd i ddarparu dyddiad penodol ar gyfer cyflwyno ei ddogfennau drafft a sicrhau bod y dyddiad hwnnw'n cael ei adlewyrchu yn y Ddogfen Rhaglen. Fe'i cynghorwyd hefyd i gyflwyno rhestr o ba ddogfennau a fydd yn cael eu cyflwyno i'w hadolygu. Gofynnwyd am ddyddiad penodol ar gyfer cyflwyno'r cais hefyd, y dylid ei adlewyrchu yn y Ddogfen Rhaglen. ENGLISH: The Applicant informed the Inspectorate that the Adequacy of Consultation Milestone (AoCM) is intended to be submitted in January 2025, along with draft documents. The Applicant informed that the DCO application is intended to be submitted in March 2025. The Inspectorate advised the Applicant of the six-week draft document review period, and how time to make any amendments following the review should be factored into these timescales. For resourcing purposes, the Applicant was advised to provide an accurate date for when its draft documents were to be submitted and ensure that this is reflected in the

	Programme Document. It was also advised to submit a list of which documents will be submitted for review. An accurate date for the application submission was also requested, and again should be reflected in the Programme Document.
Cyngor ar Ddylunio Da Good Design Advice	CYMRAEG: Rhoddodd yr Arolygiaeth wybod i'r Ymgeisydd fod y Dudalen Cyngor ar Ddylunio Da wedi cael ei chyhoeddi ac fe'i cynghorwyd i'w hystyried yn nogfennau'r cais. ENGLISH: The Inspectorate informed the Applicant that the Good Design Advice Page has been published and advised to demonstrate regard to it within the application documents.
Darpariaethau Amddiffynnol Protective Provisions	CYMRAEG: Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i sicrhau bod trafodaethau â phartion allweddol ynglŷn â Darpariaethau Amddiffynnol yn dechrau'n gynnar, er mwyn helpu i hwyluso archwiliad mwy didrafferth, maes o law. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod wedi dechrau amlygu ble mae angen Darpariaethau Amddiffynnol a bod trafodaethau â'r partion hynny wedi'u trefnu'n fuan. ENGLISH: The Inspectorate advised the Applicant to ensure that discussions with key parties relating to Protective Provisions commence early, to help facilitate a smoother examination in due course. The Applicant confirmed that it has begun to identify where Protected Provisions are required and have discussions with those parties scheduled soon.
Cyfesurynnau grid Grid co-ordinates	CYMRAEG: Amlygodd yr Arolygiaeth fod y map ar wefan y prosiect yn anghywir ar hyn o bryd. Fel y cyfryw, gofynnodd i'r Ymgeisydd ddarparu cyfeiriadau dwyreiniad a gogleddiad y Grid Cenedlaethol ar gyfer y safle, er mwyn sicrhau bod y map yn gywir. ENGLISH: The Inspectorate highlighted that the map on the project website is currently inaccurate. As such, requested that the

	Applicant provide the National Grid easting and northing references for the site, to ensure that the map is accurate.
Pwnc Topic	Dyddiad cyfarfod: 12 Mawrth 2025 Meeting date: 12 March 2025
Ymgynghoriad anstatudol ychwanegol Additional non-statutory consultation	CYMRAEG: Amlygodd yr ymgeisydd fod ymgynghoriad anstatudol wedi'i dargedu yn cael ei gynllunio i ymgynghori ar newid i ddyluniad y prosiect. Nid yw'r deunyddiau ymgynghori wedi cael eu cwblhau'n derfynol eto, ond bydd y dull ymgynghori'n cael ei drafod gyda Chyngor Sir y Fflint cyn hir. Er na roddwyd gwybod i'r Arolygiaeth am natur y newidiadau, trafodwyd amseriad a hyd y cyfnod ymgynghori, o ystyried cyfnod y Pasg. Cynghorodd yr Arolygiaeth ynglŷn â sicrhau digon o amser ar ôl diwedd yr ymgynghoriad i adolygu'r holl adborth a dangos y rhoddwyd sylw i'r adborth yn yr adroddiad ymgynghori. ENGLISH: The applicant highlighted that targeted non-statutory consultation was being planned to consult on a change to the the design of the project. The consultation materials have not yet been finalised but the approach to consultation will be discussed with Flintshire County Council shortly. Whilst the Inspectorate was not informed of the nature of the changes, the timing and duration for the consultation period was discussed, in view of the Easter period. The Inspectorate advised about ensuring sufficient time after the close of the consultation to review all feedback and demonstrate regard to the feedback in the consultation report.
Digonolrwydd ymgynghori Adequacy of consultation	CYMRAEG: Cadarnhaodd yr Arolygiaeth fod yr Adroddiad Carreg Filltir Digonolrwydd Ymgynghori yn gynhwysfawr ac nad oedd ganddi unrhyw sylwadau. Cadarnhaodd yr Arolygiaeth y byddai'r cyngor hwn yn cael ei adlewyrchu yn y Cofnod Cyngor a51. ENGLISH: The Inspectorate confirmed that the Adequacy of Consultation Milestone Report was comprehensive and that it had no comments. The Inspectorate confirmed that this advice would be reflected in the s51 Advice Log.

Diweddariad ar y rhaglen Programme update	CYMRAEG: Esboniodd yr ymgeisydd mai'r bwriad yn flaenorol oedd cyflwyno'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ym mis Ebrill 2025. Fodd bynnag, mae'r dyddiad hwnnw wedi mynd heibio bellach, o ystyried yr ymgynghoriad wedi'i dargedu, ac nid oes dyddiad cyflwyno newydd. Dywedodd yr Arolygiaeth fod arni angen dyddiad cyflwyno ar frys er mwyn gallu trefnu adnoddau'n effeithiol. Amlygodd y gofyniad yn y gwasanaeth cyn-ymgeisio i sicrhau bod dogfen rhaglen yn cael ei chyhoeddi a'i chynnal, fel bod cyrff yn gallu darparu adnoddau'n effeithiol ar gyfer prosiectau. ENGLISH: The applicant explained that the DCO application submission had previously been planned for April 2025. However, that date has now slipped, in view of the targeted consultation, and there was no updated date for the submission. The Inspectorate advised that it required a submission date as a matter of urgency in order to deploy resources effectively. It highlighted the requirement of the pre-application service to ensure that a programme document is published and maintained, to ensure that bodies are able to effectively resource projects.
Dogfennau drafft a DCO Draft documents and DCO	CYMRAEG: Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai'r ymgeisydd ystyried ei sylwadau ar ddogfennau drafft a gyhoeddwyd ar 25 Chwefror 2025. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y byddai hyn yn derbyn sylw fel atodiad i'r Adroddiad Ymgynghori. Bydd yr Arolygiaeth yn cadarnhau i'r ymgeisydd a yw eisiau gweld y gofrestr ymrwymadau ar ei ffurf bresennol, sydd wedi'i seilio ar yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR) ac nid y Datganiad Amgylcheddol sy'n dod i'r amlwg. ENGLISH: The Inspectorate advised that regard should be had by the applicant to its comments on draft documents issued on 25 February 2025. The applicant confirmed that this would be addressed as an appendix to the Consultation Report.

	The Inspectorate is to clarify with the applicant whether it wanted to see the commitments register in its current form which is based on the PEIR and not the emerging ES.
Effaith dylunio ar gwmpasu, AEA a HRA Design Impact on scoping, EIA and HRA	CYMRAEG: Amlygodd yr Arolygiaeth nad oedd yn gallu cynghori ar oblygiadau amgylcheddol y newidiadau i'r dyluniad heb fanylion amdanynt. Fodd bynnag, dywedodd fod angen i'r ymgeisydd sicrhau ei fod yn ystyried unrhyw oblygiadau i gwmpasu'r asesiad o effeithiau amgylcheddol (AEA) sydd eisoes wedi cael ei gynnal. Dylai hyn gael ei ystyried cyn yr ymgynghoriad a gynlluniwyd. Amlygodd yr ymgeisydd fod y goblygiadau posibl i gwmpasu'r AEA a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) o'r pwys mwyaf a bod y tîm AEA yn ystyried hyn. Cynghorwyd yr ymgeisydd i sicrhau, os bydd unrhyw newidiadau i'r dyluniad yn fesurau lliniaru ar gyfer materion HRA hefyd, y dylai'r rhain gael eu hasesu yn yr HRA ar y cam asesu priodol. ENGLISH: The Inspectorate highlighted that it was unable to advise on environmental implications of the design changes without detail of them, however advised that the applicant needed to ensure it considered any implications on the scoping of the environmental impact assessment which has already been undertaken. This should be considered prior to the planned consultation. The applicant highlighted that the potential implications for EIA and HRA scoping are paramount with the EIA team considering this. The applicant was advised to ensure that should any changes to the design also be mitigation for HRA matters, that these should be assessed in the HRA at the appropriate stage of assessment.
Ymagwedd ddylunio Design approach	CYMRAEG: Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i ddangos ei daith ddylunio'n glir, gan gynnwys sut mae wedi mynd i'r afael â'r gofynion a amlinellir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ac egwyddorion dylunio'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, fel yr adlewyrchir ar dudalen Cyngor Dylunio yr Arolygiaeth. Holodd yr Arolygiaeth a oedd y prosiect wedi cael adolygiad annibynnol gan Gomisiwn Dylunio Cymru. Cadarnhaodd yr ymgeisydd nad oedd wedi cael adolygiad o'r fath. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd yn gryf i ystyried

	adolygiad cyn cyflwyno'r cais, a allai helpu i hwyluso'r archwiliad, maes o law. ENGLISH: The Inspectorate advised the applicant to clearly demonstrate its design journey, including how it has addressed requirements set out in the National Policy Statements and National Infrastructure Commission design principles, as reflected in the Inspectorate's Good Design Advice page. The Inspectorate queried if the project had been subject to an independent review by the Design Commission of Wales to which the applicant confirmed it had not. The Inspectorate strongly advised the applicant to consider a review ahead of the submission of the application, which could assist with a smoother examination in due course.
Cyfieithiadau Cymraeg Welsh Translations	CYMRAEG: Holodd yr ymgeisydd ynghylch pa ddogfennau allweddol y byddai angen eu cyfieithu. Mae'r ymgeisydd wedi paratoi rhestr o ddogfennau sydd i'w cyflwyno gyda'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn Gymraeg a Saesneg. Cynghorodd yr Arolygiaeth mai mater i'r ymgeisydd, yn y pen draw, yw penderfynu pa ddogfennau i'w darparu'n ddwyieithog. Cadarnhaodd yr Arolygiaeth y bydd yr holl ddogfennau y mae'n eu cynhyrchu yn ddwyieithog. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer holl ddigwyddiadau'r archwiliad. ENGLISH: The applicant queried which key documents would need to be translated. The applicant has prepared a list of documents to be submitted with the Development Consent Order in English and Welsh. The Inspectorate advised that ultimately it is for the applicant to decide which document it makes available bilingually. The Inspectorate confirmed that all documents it produces will be bilingual. The Inspectorate advised the applicant to ensure that simultaneous translation facilities are present for all examination events.
Datganiad Angen Statement of Need	CYMRAEG: Holodd yr ymgeisydd a oedd yn ofynnol iddo ddarparu datganiad angen.

	Cynghorodd yr Arolygiaeth fod Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009 yn amlinellu pa ddogfennau y mae'n ofynnol iddynt gydfynd â chais. Cynghorodd mai mater i'r ymgeisydd, yn y pen draw, yw p'un ai cyflwyno'r datganiad angen fel dogfen annibynnol neu fynd i'r afael â'r angen mewn dogfennau eraill, fel y datganiad cynllunio. Pa ddull bynnag a ddefnyddir gan yr ymgeisydd, dylid ei egluro yn llythyr eglurhaol y cais. ENGLISH: The applicant queried if it was required to provide a statement of need. The Inspectorate advised that the Infrastructure Planning (Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009 set out what documents are required to accompany an application. It advised that ultimately it is for the applicant to consider whether to submit the statement of need as a standalone document or whether to address need within other documents, such as the planning statement. Whichever approach the applicant takes should be clearly set out within the application covering letter.
--	---